**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Mawrth 23ain 2016 am 7.30 yh yng Nghanolfan Gwytherin

Ymddiheuriadau: Tecwyn Evans, Gwydion Jones, Gwyn Williams

Presennol: D Gwynfor Davies (Cadeirydd), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Ian W Griffith, Ifor G Edwards, Elen H Edwards a'r Clerc.

Cydymdeimlwyd ag Elen Edwards yn ei phrofedigaeth o golli ei thad-yng-nghyfraith.

51.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda. Mynegodd Ann Vaughan gysylltiad ag eitemau 8 a) b) c) Ceisiadau Cynllunio

51.2 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod Chwefror 24ain 2016 a PHENDERFYNWYD yn unfrydol eu derbyn fel cofnod cywir.

51.3 MATERION YN CODI O'R COFNODION
51.3.1 PANEL PANDY TUDUR – darllenwyd llythyr gan Fenter Pandy Tudur yn caniatau i ni osod y panel wrth y fainc yn maes parcio'r Fenter ar yr amodau canlynol:
a) bod y Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb llawn am ei gynnal a'i gadw ac am unrhyw ddifrod i'r panel
b) bod y panel wedi ei yswirio gan y Cyngor Cymuned
c) nad oes unrhyw gyfrifoldeb ar y Fenter am unrhyw ddifrod ynghlwm â'r panel.
ch) bod y contractiwr fydd yn ei osod yn cysylltu â'r Cadeirydd neu Gyfarwyddwr cyn ei osod er mwyn penderfynu ei union leoliad.
PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr amodau.

51.3.2 CYFIEITHU COFNODION – cafwyd pris o £40 am fil o eiriau gan Mr John Edwards hefyd. PENDERFYNWYD i'r Clerc gysylltu â chyfieithydd i gyfieithu cofnodion os oedd angen.
51.3.3 CWT YR HERS, GWYTHERIN – y Clerc wedi cysylltu â'r Gofrestrfa Tir. Nid oedd gwybodaeth ar gael yn swyddfa Esgobaeth Llanelwy.
51.3.4 TÂN YM MHARC AELAS – derbyniwyd llythyr gan Grŵp Cynefin yn nodi eu bod wedi derbyn adroddiad fforensig gan y cwmni yswiriant yn mynegi nad problem efo'r adeilad na'r system drydanol oedd yn gyfrifol ond bod angen dymchwel y tŷ ac adeiladu un newydd.
51.3.5 MWY O GYHOEDDUSRWYDD I'R WEFAN – Penderfynwyd i'w drafod yn y cyfarfod nesaf ac i bawb gael golwg ar y wefan cyn hynny.
51.3.6 ARWEINYDD CYNGOR SIR CONWY – penderfynwyd i ysgrifennu at y Cyngh Dilwyn Roberts i'w longyfarch am oroesi'r amgylchiadau diweddar yn y Cyngor Sir.

51.4 MATERION YR AMGYLCHEDD
51.4.1 PONT DROS AFON DYFFRYN GALL – mynegwyd pryder fod y ffordd wedi cau a theimlem nad oedd yn saff i'r henoed fod yng Nghartref yr Hen Ficerdy e.e. pe byddai angen gwasanaethau brys yno. PENDERFYNWYD gofyn i swyddogion Sir Conwy ddod i weld y lle a'r ffordd y dargyfeirir y traffig. Hefyd i gysylltu ag aelodau seneddol a chynulliad. Y Clerc hefyd i holi y Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans os ydynt yn ymwybodol o'r sefyllfa.

51.4.2 LLWYBR DROS AFON RHYDLECHOG – derbyniwyd adroddiad gan Gyngor Cymuned Llansannan o gyflwr gwael y llwybr a deallir nad yw cerddwyr Llwybr y Pererinion yn defnyddio'r darn hwn oherwydd ei gyflwr. PENDERFYNWYD i adael y mater ar hyn o bryd.
51.4.3 TORRI MYNWENTYDD – adroddodd y Clerc bod Mr Dei Evans wedi cysylltu i ddweud nad oedd yn dda ei iechyd ac na allai gwblhau'r contract eleni. PENDERFYNWYD gofyn a fedr gael rhywun arall i orffen y contract neu os yn amhosibl y Clerc i hysbysebu neu gael rhywun i wneud un toriad a dechrau contract yn nes ymlaen.
51.4.4 MYNWENT GWYTHERIN – derbyniwyd llythyr gan y Cyngh Tecwyn Evans yn gofyn am ganiatâd i ddefnyddio darnau o hen gistiau sydd wedi eu gadael yn y Fynwent i wneud cerrig beddau i hen feddau'r teulu yn y fynwent. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.
51.4.5 SCIPIAU CYMUNEDOL – PENDERFYNWYD i gael un scip i bob pentref yn mis Mai.
51.4.6 DIWRNOD TACLUSO – cafwyd cais am ddiwrnod arbennig i dacluso yn Llangernyw. Y Clerc i gysylltu â Cadwch Gymru'n Daclus ac o bosib cael cymorth aelodau'r Aelwyd ac i hysbysebu yn y Gadlas.

51.5 TOILEDAU LLANGERNYW – cafwyd adroddiad gan Ann Vaughan o'r pwyllgor gan nodi mai enw'r grŵp newydd oedd Menter Bro Cernyw. Diolchwyd i Ann am ei hadroddiad ac am gymryd y swydd o Gadeirydd y grŵp. Cafwyd cais bod y Cyngor Cymuned i redeg y toiledau nes i'r Cwmni gael ei ffurfio.

51.6 CHWARAE ALLAN CVSC - PENDERFYNWYD i beidio ymuno â'r cynllun oherwydd ein bod yn cefnogi Bwrlwm Bro i ddarparu cyfleoedd chwarae i blant dros yr haf.

51.7 CRONFA BRO CERNYW – PENDERFYNWYD i gyfrannu £500 i Bwrlwm Bro ond i beidio cefnogi cais Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Bro Cernyw am lenni i'r neuadd oherwydd na fyddai'n gwella safon addysg y plant nac yn helpu'r athrawon a'u hannog i drio am grant gan WREN neu Arian i Bawb.

51.8 MATERION CYNLLUNIO
51.8.1 Cais Rhif 0/42510 Cadw a thrawsnewid stablau rhestredig gradd II a sied drol i un uned breswyl ac un llety gwyliau yn Glan yr Afon, Llangernyw gan Mrs Eirian Jones a
b) Cais Rhif 0/42511 Cadw a thrawsnewid stablau rhestredig gradd II a sied drol i un uned breswyl ac un llety gwyliau (Caniatâd Adeilad Rhestredig) yn Glan yr Afon, Llangernyw gan Mrs Eirian Jones. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r ddau gais.
c) Cais Rhif 0/42554 Estyniad i annedd yn Garthmyl, Pentre Isaf, Llangernyw gan Mr Rhys Davies. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
ch) Apêl Plas Isaf, Llangernyw – bydd yn mynd ar Agenda'r cyfarfod nesaf.

51.9 MAST PEN Y FRON, GWYTHERIN – derbyniwyd ateb gan Mr David Jones AS yn amgau llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn nodi bod gweddill yr arian a glustnodwyd ar gyfer y rhaglen 'Mobile Infrastructure Project' yn cael ei ail-gyfeirio ac yn cael ei gadw gan y Llywodraeth ac ni fydd y rhaglen yn cael ei ymestyn tu hwnt i fis Mawrth eleni. Ond gobeithia y bydd ehangu gorchuddiaeth ffonau symudol yn y dyfodol yn dilyn cytundeb rhwng y Llywodraeth a'r prif gwmniau ffôn a hefyd fel canlyniad i delerau trwydded 4G cwmni Telefonica.

51.10 CÔD YMDDYGIAD DIWYGIEDIG – PENDERFYNWYD i edrych arno erbyn y cyfarfod nesaf.

51.11 MATERION LLEOL
51.11.1 Drain wedi gordyfu ar allt newydd Pandy Tudur ac yn malu drychau ac yn crafu ceir.
51.11.2 Angen holi pryd mae band llydan BT yn dod i Wytherin – angen cysylltu â Phrif Weithredwr Cymru – Alwen Williams, Gwytherin gynt.
51.11.3 Coed yn tyfu i'r ffordd rhwng Holland Arms a Plas yn Trofarth a cherbydau yn bachu ynddynt.
51.11.4 Angen anfon cerdyn gwellad i Tecwyn Evans.
51.11.5 Darn mawr o goncrid yn yr afon ger Pont Faen.
51.11.6 Deallir bod adroddiad Estyn am Ysgol Bro Cernyw ar gael yn awr.
51.11.7 Atgoffir am Wobrau Busnes Conwy.
51.11.8 Holwyd am ddatblygiad y difibriwlator – deallir bod angen talu iddo gael ei gysylltu â thrydan.
51.11.9 Arwyddion uniaith Saesneg 'No Dogs' ar ffensys newydd yr Ysgol. Pob arwydd arall o gwmpas yr ysgol yn ddwyieithog.

51.12 BILIAU

| | |
|---|---|
| Cyfieithu Cymunedol | £60 |
| Dŵr Cymru (Mynwent Llangernyw) | £22.69 |
| JK & E Roberts (Hysbysfwrdd Pandy) | £246 |
| JK & E Roberts (Llwybr Cyhoeddus) | £216 |

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35 yr hwyr.

*Cymeradwywyd y cofnodion …D G Davies……………….. Dyddiad …20.4.16……………….*

Community Council Meeting was held Wednesday, March 23rd 2016 at 7.30 pm at Gwytherin Community Centre

Apologies: Tecwyn Evans, Gwydion Jones, Gwyn Williams

Present: D Gwynfor Davies (Chair), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Ian W Griffith, Ifor G Edwards, Elen H. Edwards and Clerk.

Condolences were presented to Elen Edwards in her bereavement on losing her father-in-law.

51.1 DECLARATION - members were given the opportunity to declare a connection with an item on the agenda. Ann Vaughan expressed connection with items 8 a) b) c) Planning Applications

51.2 minutes - looked at minutes 24 February 2016 and RESOLVED unanimously to be accepted as a correct record.

51.3 ISSUES ARISING
51.3.1 PANDY TUDUR PANEL - a letter from Menter Pandy Tudur was read out allowing us to install the panel in the Menter car park near the bench on the following conditions:

a) that the Council take full responsibility for its maintenance and for any damage to panel
b) that the panel is insured by the Community Council
c) no responsibility on the Menter for any damage to the panel.
d) the contractor contacts the Chairman or a Director prior to assembly to determine its exact location.
RESOLVED unanimously to accept the conditions.

51.3.2 TRANSLATION MINUTES – Mr John Edwards charges £ 40 for a thousand words translated. RESOLVED the Clerk contact translator to translate minutes if necessary.
51.3.3 HEARSE SHED, GWYTHERIN - the Clerk has contacted the Land Registry. No information was available in the office of the Diocese of St Asaph.
51.3.4 FIRE AT PARC AELAS - received a letter from Grŵp Cynefin indicating that they had received the forensic report by the insurance company expressing there were no problems with the building nor the electrical system but the house must be demolished and build a new one.
51.3.5 MORE PUBLICITY TO WEBSITE - decided to be discussed at the next meeting and for everyone to have a look at the website beforehand.
51.3.6 CONWY COUNTY COUNCIL LEADER - decided to write to Cllr Dilwyn Roberts congratulating him for surviving the recent situation in the County Council.

51.4 ENVIRONMENT ISSUES
51.4.1 BRIDGE OVER DYFFRYN GALL RIVER - expressed concern that the road is closed and we felt it was not safe for the elderly at the Old Vicarage Nursing Home eg if emergency services were needed. RESOLVED to ask officers of Conwy to come and see the place and the way in which the traffic is diverted. In addition to contact members of parliament and assembly. The Clerk also to ask the Fire and Ambulance Service if they are aware of the situation.
51.4.2 PATH OVER RIVER RHYDLECHOG - Llansannan Community Council sent a report about the poor condition of the path and it is understood that the Pilgrim's Route walkers don’t use this part because of its condition. RESOLVED to leave the matter at the moment.
51.4.3 GRASS CUTTING IN CEMETERY - The Clerk reported that Mr Dei Evans had contacted to say due to ill-health he could not fulfill the contract this year. RESOLVED to ask him if he could get someone else to finish the contract or if not possible the Clerk to advertise or get someone to make the first cut and start a contract later on.
51.4.4 CEMETERY GWYTHERIN - received a letter from Cllr Tecwyn Evans asking for permission to use pieces of old gravestones left in the cemetery to make headstones for old family graves in the cemetery. RESOLVED to support the application.
51.4.5 COMMUNITY SKIPS - RESOLVED to get one SKIP for each village in May.
51.4.6 TIDYING UP DAY - a request for a special day to tidy up in Llangernyw. Clerk to contact Keep Wales Tidy and possibly get help from Aelwyd members and to advertise in the Gadlas.

51.5 LLANGERNYW TOILETS - Ann Vaughan reported from the committee noting that the name of the new group was Menter Bro Cernyw. Ann was thanked for her report and for taking the post of Chairman of the group. There was a request that the

Community Council to run the toilets until the Menter was formed.

51.6 PLAY OUT SCHEME CVSC - RESOLVED not to join the scheme because we are supporting Bwrlwm Bro to provide play opportunities for children over the summer.

51.7 BRO CERNYW FUND - RESOLVED to contribute £ 500 to Bwrlwm Bro but not to support application by Ysgol Bro Cernyw PTA for curtains for the hall because it would not improve the quality of education for the children or help teachers and encourage them to try for a grant from WREN or Lottery Awards for All.

51.8 PLANNING MATTERS
51.8.1 Application No. 0/42510 Retention and transform the grade II listed stables and cart shed to one residential unit and one holiday accommodation in Glanrafon, Llangernyw by Mrs Eirian Jones
b) Application No. 0/42511 Retention and transform the grade II listed stables and cart shed to one residential unit and one holiday accommodation (LBC) in Glanrafon, Llangernyw by Mrs Eirian Jones. RESOLVED unanimously to support both applications.
c) Application No. 0/42554 Extension to dwelling in Garthmyl, Pentre Isaf, Llangernyw by Mr Rhys Davies. RESOLVED unanimously to support the application.
d) Plas Isaf, Llangernyw Appeal - will go on the next Agenda.

51.9 PEN Y FRON MAST, GWYTHERIN - received a reply from Mr David Jones MP enclosing a letter from the Secretary of State for Culture, Media and Sport noting that the remaining funds earmarked for the program 'Mobile Infrastructure Project' will be re-directed and kept by the Government and the program will not be extended beyond March. But he hopes mobile phone coverage will expand in future following an agreement between the Government and the main telephone companies and also as a result of 4G license terms of Telefonica company.

51.10 REVISED CODE OF CONDUCT - RESOLVED to look at it before the next meeting.

51.11 LOCAL ISSUES
51.11.1 Overgrown hedge on Pandy Tudur new hill damaged mirrors and scratching cars.
51.11.2 Need to inquire when BT broadband comes to Gwytherin - need to contact the Chief Executive of Wales - Alwen Williams, previously of Gwytherin .
51.11.3 Trees are growing into the road between Holland Arms and Plas Trofarth and damaging vehicles .
51.11.4 Need to send a get well card to Tecwyn Evans.
51.11.5 Large piece of concrete in the river near Pont Faen.
51.11.6 It is understood that the Estyn report on Ysgol Bro Cernyw is now available.
51.11.7 Conwy Business Awards were referred to.
51.11.8 Inquired about the development of the defibrillator - understood the need to pay for it to be connected to electricity.
51.11.9 English only 'No Dogs' signs on new fencing at the School. All other signs around the school are bilingual.

51.12 BILLS

| | |
|---|---|
| Cyfiethu Cymunedol | £ 60 |
| Welsh Water (Cemetery Llangernyw) | £ 22.69 |
| JK & E Roberts (Pandy Tudur Noticeboard) | £ 246 |
| JK & E Roberts (Public Path) | £ 216 |

The meeting came to a close at 9.35 pm.

The minutes were approved ..D G Davies...................... .. Date ..20.4.16……